**Y Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**Dyddiad:** **1 Mawrth 2000**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **Mentrau Cymunedol**

**Diben**
**1.Hysbysu aelodau ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â Mentrau Cymunedol**

**Argymhelliad**
**2.**Gwahoddir aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad hwn, ac i ofyn am adroddiad pellach maes o law.

**Amseru**
**3.**Cyhoeddodd y Comisiwn Ganllawiau drafft ar gyfer pob Menter Gymunedol ym mis Hydref 1999, a bu'n ymgynghori ag Aelod-wladwriaethau a Senedd Ewrop ers hynny. Mae'r broses hon yn agosáu at y terfyn, a disgwylir i'r canllawiau gael eu cyhoeddi yn yr Official Journal fis Mawrth neu fis Ebrill. Wedyn, bydd gan yr Aelod-wladwriaethau chwe mis i baratoi a chyflwyno dogfennau rhaglen ar gyfer INTERREG, URBAN a LEADER a phedwar mis i gyflwyno dogfennau rhaglen ar gyfer EQUAL. Ar ôl eu cyflwyno yn yr hydref, bydd cyfnod o gyd-drafod gyda'r Comisiwn. Mae'n debygol y bydd yr holl raglenni yn dechrau yn gynnar yn 2001.

**Cefndir**
**4.**Mae Mentrau Cymunedol yn rhan o'r Cronfeydd Strwythurol, ond mae eu canolbwynt yn wahanol i'r Rhaglenni prif ffrwd. Mae Amcanion 1, 2 a 3 wedi eu cynllunio i fynd i'r afael â materion rhanbarthol, ac mae cyllid yn cael ei ddatganoli o'r Undeb Ewropeaidd i Bartneriaethau lleol. Mae Mentrau Cymunedol yn mynd i'r afael â phroblemau sydd yn gyffredin yn yr Undeb Ewropeaidd yn gyfan, ac mae dylanwad y Comisiwn ar y rhain yn fwy nag ar y cronfeydd prif ffrwd.

5.Cynyddodd nifer y Mentrau Cymunedol yn raddol yn ystod yr 1990au, ac erbyn 1999 roedd cyfanswm o 13, gyda Chymru yn elwa o'r rhan fwyaf ohonynt. Ar gyfer y cyfnod 2000-2006 mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn bwriadu lleihau'r nifer i bedwar, a symleiddio eu gweinyddiaeth trwy gyfyngu pob un i un o'r Cronfeydd Strwythurol yn unig. Bydd y trefniadau fel a ganlyn:

- INTERREG (ERDF)
- URBAN (ERDF)
- LEADER+ (EAGGF)

- EQUAL (ESF)

**6.INTERREG** – bydd y rhaglen hon yn parhau i ganolbwyntio ar greu a chynnal cysylltiadau rhwng partneriaid mewn gwahanol aelod-wladwriaethau, a bydd iddi dair rhan:

Rhan A – cysylltiadau traws-ffiniol, ar gyfer rhanbarthau cyfagos

Rhan B – cysylltiadau traws-genedlaethol, ar gyfer grp o wledydd yn un o ranbarthau Ewrop

Rhan C – cysylltiadau rhwng rhanbarthau, ar gyfer partneriaid o wahanol rannau o Ewrop

7.Rhan A – bydd rhaglen gan Gymru ac Iwerddon o dan Rhan A. Mae'r ardaloedd cymwys yn union yr un peth â'r rhaglen ar gyfer 1994-1999. Cafwyd trafodaethau gyda swyddogion y Comisiwn ynghylch ymestyn yr ardal gymwys, ond ni chafwyd llwyddiant. Er hynny, gall ardaloedd cyfagos wneud cais am grantiau o dan raglen Cymru-Iwerddon os caiff hyn ei nodi yn y ddogfen rhaglennu.

8.Bydd angen paratoi dogfen rhaglennu newydd ar y cyd gyda Llywodraeth Iwerddon. Bydd y partneriaid yn chwarae rhan lawn ar ochr Cymru. Mae'n debyg y bydd y rhaglen yn seiliedig ar ddogfen 1994-1999, ond wedi ei diwygio fel y bo'n briodol, yn seiliedig ar brofiad.

9.Rhan B – Bydd Cymru yn gymwys i gymryd rhan mewn dwy raglen Rhan B:

- Ardal yr Iwerydd – mae'r rhaglen hon yn cynnwys Iwerddon i gyd, rhannau gorllewinol y Deyrnas Unedig (gan gynnwys Cymru gyfan), rhan orllewinol Ffrainc, gogledd orllewin Sbaen, a Phortiwgal i gyd
- Gogledd Orllewin Ewrop – mae'r rhaglen hon yn cynnwys y Deyrnas Unedig i gyd, Iwerddon, Gwlad Belg, Luxembourg, y rhan fwyaf o'r Iseldiroedd, gogledd Ffrainc a gorllewin yr Almaen.

Roedd cyfraniad Cymru at y rhaglenni hyn yn y gorffennol yn gyfyngedig iawn, ond mae modd i rannau o Gymru nad ydynt yn gymwys o dan raglen Iwerddon-Cymru Rhan A i gymryd rhan yma. Bydd sefydliadau Cymreig hefyd yn gallu datblygu prosiectau ar y cyd gyda phartneriaid mewn gwledydd eraill sy'n gymwys o dan y ddwy raglen.

10.Rhan C – bydd y rhan hon yn ariannu cyfnewid profiadau, rhwydweithio a chreu Arsyllfa i gynorthwyo i ledaenu gwybodaeth.

**11. URBAN** – mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar adferiad economaidd a chymdeithasol trefi a dinasoedd sy'n wynebu anawsterau dybryd er mwyn hybu datblygu trefol cynaliadwy. Bydd gan ardaloedd cymwys boblogaeth o 20,000 o leiaf, a byddant yn gallu dangos bod problemau penodol sydd angen eu datrys. Bydd gan y DU o leiaf naw rhaglen, ac mae Cymru

yn debygol o gael un rhaglen, yn yr un modd â'r tro diwethaf (roedd Townhill Abertawe yn gymwys rhwng 1994-1999). Mewn llawer o ffyrdd mae'r ymagwedd yn debyg i'r cynlluniau gweithredu lleol a fydd yn cael eu datblygu o dan Amcanion 1 a 2, gan ganolbwyntio ar raglen integredig yn cynnwys nifer o brosiectau sy'n ategu ei gilydd.

**12**. **LEADER+** - bydd y rhaglen hon yn ategu'r rhaglenni prif ffrwd trwy hybu cynlluniau integredig a lunnir ac a weithredir gan bartneriaethau sy'n gweithio ar lefel leol. Bydd yn cydweddu â'r fframwaith strategol a sefydlwyd gan y Cynllun Datblygu Gwledig, ac yn ategu gweithgareddau a gyllidir o dan Amcanion 1, 2 a 3. Er hynny, mae LEADER+ yn canolbwyntio ar arloesi, gyda'r cyfle i annog twf a phrofi ymagwedd newydd at ddatblygu cynaliadwy integredig.

**3. EQUAL** – Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gydweithio cenedlaethol i hybu ffyrdd newydd o fynd i'r afael â'r holl ffurfiau ar wahaniaethu ac anghydraddoldeb mewn perthynas â'r farchnad lafur. Mewn rhai ffyrdd mae'n disodli ADAPT ac Employment, ond mae'n canolbwyntio ar agwedd arall. Roedd yr hen raglenni yn tueddi i gynnal projectau bach wedi eu targedu at grwpiau penodol. Bydd y rhaglen newydd yn canolbwyntio ar ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol, a bydd felly yn fwy strategol o ran ymagwedd. Mae hon yn debygol o fod yn rhaglen ledled y DU, ond mae posibilrwydd y bydd arian yn cael ei neilltuo ar gyfer Cymru. Bydd y Cynulliad yn rhan o'r broses o ddrafftio'r rhaglen a bydd yn ymgynghori â sefydliadau yng Nghymru.

**Y Pwyllgor Partneriaeth yng Nghymru**

14.Sefydlodd y Tasglu is-Bwyllgor i ymchwilio i Fentrau Cymunedol yn ystod haf 1999. Mae'r is-Bwyllgor wedi parhau i gyfarfod bob yn ail fis er bod y Tasglu erbyn hyn wedi cyflawni ei waith. Sefydlodd yr is-Bwyllgor bedwar Grp Ymgynghorol, un i edrych ar bob un o'r Mentrau Cymunedol. Cadeiriwyd y grwpiau hyn gan swyddogion o'r sefydliadau partner. Mae'r pedwar grp yn paratoi adroddiadau terfynol, a bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror. Dyma fydd diwedd y cam cyntaf yn y paratoadau, a bydd cyhoeddi'r canllawiau yn yr Official Journal yn nodi dechrau'r ail gam.

**Casgliad**

5.Bydd yr Asiantaeth Weithredol yn gyfrifol am y pedair Menter Gymunedol yng Nghymru. Mae'n bwysig eu bod yn ategu yn hytrach nag yn dyblygu gweithredoedd a gyflawnir o dan raglenni Amcan 1, 2 a 3.

16.Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Pwyllgor cyn gynted ag y bydd y Canllawiau wedi eu cyhoeddi. Bydd y papur hwn yn ceisio cytundeb gan y Pwyllgor ar y gweithdrefnau i'w mabwysiadu wrth baratoi cynlluniau ar gyfer y pedair Menter Gymunedol yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol**

**17. Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi dyraniadau ariannol ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth, a dyrannwyd y symiau canlynol i'r Deyrnas Unedig:**

| | | |
|---|---|---|
| INTERREG III | 362Meuro | Tua £217m |
| URBAN | 117Meuro | Tua £70m |
| LEADER+ | 106Meuro | Tua £63.6m |
| EQUAL | 376Meuro | Tua £225.6m |

Mae dyraniadau'r DU ar gyfer yr holl raglenni yn uwch na'r rhai ar gyfer cyfnod 1994-1999 oherwydd i'r Mentrau Cymunedol gael eu had-drefnu a'r nifer ei leihau o 13 i 4.

18. Bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig yn pennu'r dyraniadau ar gyfer Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr, gan ymgynghori â'r Cynulliad. Nid yw'r ffigurau ar gyfer Cymru ar gael ar hyn o bryd. Derbyniodd Cymru y dyraniadau canlynol ar gyfer rhaglenni tebyg rhwng 1994 a1999:

| | | |
|---|---|---|
| INTERREG II | 13.053 Miliwn Ecu | Tua £8.79miliwn |
| URBAN | 6.593 Miliwn Ecu | Tua £4.39 miliwn |
| LEADER II | 10.834 Miliwn Ecu | Tua £7.55 miliwn |
| ADAPT ac EMPLOYMENT | 22.56 Miliwn Ecu | Tua £16.5 miliwn |

**Pwynt Cyswllt**
**19.**Yr Adran Materion Ewropeaidd